Dafydd Elis-Thomas

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

22 Gorffennaf 2019

Annwyl Dafydd,

**Y wybodaeth ddiweddaraf am bortffolio'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol**

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu cyn y gwaith craffu yr ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod tymor yr hydref.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am y gwaith o ddatblygu Cymru Greadigol, Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Chwaraeon Genedlaethol arfaethedig Cymru.

Bydd y Pwyllgor yn trafod y pynciau hyn yn ystod tymor yr hydref, gyda'r bwriad o ymweld â safleoedd cysylltiedig yng Ngogledd Cymru.

## 1. Cymru Greadigol

### 1.1 Llywodraethu

Yn ei hymateb i'n hadroddiad ar yr ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr, derbyniodd Llywodraeth Cymru rai o'r argymhellion a oedd yn cyfeirio at Gymru Greadigol.

Rwy'n ddiolchgar ichi am gynnwys mwy o fanylion yn eich cyfraniad i'r ddadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf, o ran sefydlu Cymru Greadigol. Gwnaethoch sôn y byddai'r broses o recriwtio Cyfarwyddwr a Chadeirydd yn dechrau'n fuan. Gwnaethoch sôn hefyd eich bod yn disgwyl i'r broses o sefydlu'r strwythurau llywodraethu gael ei chwblhau erbyn diwedd mis Hydref.

Gofynnaf ichi nodi strwythur llywodraethu Cymru Greadigol. A wnewch restru'r amserlen ar gyfer recriwtio a phenodi'r Cyfarwyddwr, y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd?

### 1.2 Cyllid

A wnewch nodi cyllideb gyffredinol Cymru Greadigol, a faint o'r gyllideb honno sydd ar gael i gefnogi cynyrchiadau ffilm?

A wnewch esbonio pa feini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau am gyllid ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu? Er enghraifft, sut rydych yn taro cydbwysedd rhwng ffactorau masnachol a diwylliannol? Pa elw ar ei buddsoddiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl o'r cyllid hwn?

Mae gennyf ddiddordeb yng ngwaddol y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Sut y byddwch yn sicrhau y bydd yr elw ar fuddsoddiadau a wneir o dan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn cael ei ailfuddsoddi mewn cynyrchiadau sgrin eraill? A fydd yr arian a fwriadwyd iddo gael ei fuddsoddi o dan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn cael ei ailddyrannu i'r cyllid sgrin a ddarperir drwy Gymru Greadigol? Rwyf wedi cael llawer o ymholiadau gan gynhyrchwyr sy'n chwilio am gymorth ariannol, a hoffwn gael cymaint o wybodaeth â phosibl i roi sicrwydd iddynt fod Cymru o ddifrif am gynnal twf ein diwydiant ffilm.

### 1.3 Sicrhau bod cynyrchiadau a gefnogir gan arian cyhoeddus yn cynnal clyweliadau lleol

Atodaf lythyr gan Simon Curtis, Trefnydd Cenedlaethol Cymru, Equity. Mae wedi awgrymu eglurhad defnyddiol o'n hargymhelliad y dylai cynyrchiadau sy'n cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru gynnal o leiaf un clyweliad lleol. Rydych wedi derbyn yr argymhellion hyn, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallai geiriad cytundebau â chynyrchiadau yn y dyfodol nodi 'un set leol o glyweliadau' neu 'un diwrnod llawn o glyweliadau lleol' yn unol â llythyr Simon.

## 2. Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru

A wnewch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i fwrw ymlaen â'r cynigion ar gyfer Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru? Byddai'n ddefnyddiol i ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Llywio.

Yn eich datganiad ar 10 Mai 2019, gwnaethoch sôn y bydd angen cwblhau rhagor o waith ar ddichonoldeb i nodi camau gweithredu tymor hir. A wnewch nodi beth yw natur y gwaith hwn? Hynny yw, gofynnaf ichi nodi gwaith ar wahân i'r gwaith a nodir yn eich datganiad y mae eich tîm eisoes yn ei wneud, sef:

- Y tendr ar gyfer rhagor o waith ymchwil i'r gynulleidfa, i ddatblygu 'dealltwriaeth fwy soffistigedig' o'r farchnad ar gyfer y celfyddydau gweledol cyfoes yng Nghymru;

- Datblygu fframwaith ar gyfer cronfa grantiau cyfalaf y gall orielau wneud ceisiadau iddi, i fod yn rhan o fodel dosbarthedig yr Oriel;

- Gwaith cynllunio busnes i bennu pencadlys terfynol yr oriel ddosbarthedig.

A wnewch nodi'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn? Deallaf, o'ch cyflwyniad i'r grŵp 'Beth Nesaf? Caerdydd' ar 10 Gorffennaf, eich bod yn gobeithio bod mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad yn yr hydref.

## 3. Amgueddfa Chwaraeon Genedlaethol Cymru

A wnewch amlinellu pa gynnydd a wnaed yn y trafodaethau ag Amgueddfa Cymru a'r awdurdod lleol ynghylch sefydlu amgueddfa ac atyniad ymwelwyr sy'n gysylltiedig â phêl-droed yn Wrecsam?

## 4. Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor

Yn ystod tymor yr hydref, mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu gwneud gwaith ar y materion a ganlyn:

- Yr ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth, a lansiwyd ym mis Mai;
- Gwaith craffu blynyddol ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus;
- Gwaith craffu blynyddol ar gyrff cyhoeddus a noddir gan y Llywodraeth sydd o fewn ein cylch gwaith;


Y flwyddyn nesaf, bydd y Pwyllgor yn trafod y materion a ganlyn:

- Y Gymraeg mewn byd digidol;
- Rhestru adeiladau a chofrestru henebion hanesyddol;
- Y celfyddydau ac iechyd;

Yn ystod y tymor hwn, bu'n ddefnyddiol iawn i ni gael sesiwn friffio gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud. Cynigiwyd y sesiynau hyn gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg. Os credwch ei bod yn briodol, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed gan eich swyddogion – mewn sesiwn breifat – ar y pynciau y mae'r llythyr hwn yn eu trafod.

Gofynnaf ichi ymateb i'r llythyr hwn erbyn **12 Awst** er mwyn i mi roi'r wybodaeth berthnasol i aelodau'r Pwyllgor pan fyddwn yn dychwelyd ym mis Medi.

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/P/DET /2820/19

Bethan Sayed AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

09 Awst 2019

Annwyl Bethan,

**Y PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHYFATHREBU: CAIS AM DDIWEDDARIAD AR BORTFFOLIO'R CELFYDDYDAU A'R DIWYDIANNAU CREADIGOL**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf lle gwnaethoch ofyn am ddiweddariad ynghylch rhai meysydd o'm mhortffolio fel bod modd i chi roi diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ymlaen llaw ynghylch y gwaith craffu yr ydych yn bwriadu ei wneud yn ystod yr hydref.

Amgaeaf ar ffurf Atodiad ddiweddariad ar y gwaith o ddatblygu Cymru Greadigol, yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol ar gyfer Cymru a'r Amgueddfa Chwaraeon Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Diolch hefyd am yr wybodaeth o ran yr hyn y mae'r Pwyllgor yn bwriadu ei ystyried sy'n ychwanegol at yr uchod yn ystod tymor yr hydref a'r flwyddyn nesaf. Yn unol â'r arfer byddaf i a'm swyddogion wrth law i gynorthwyo'r Pwyllgor â'i waith.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ATODIAD

1. **Cymru Greadigol**

Caiff Cymru Greadigol ei sefydlu ar ddiwedd mis Tachwedd a bydd yn asiantaeth fewnol i Lywodraeth Cymru. Mae fy swyddogion wrthi'n cwblhau'r trefniadau llywodraethu a rhagwelir y bydd ganddo yr un hyblygrwydd gweithredol ag sydd gan Cadw a Croeso Cymru ar hyn o bryd, sydd hefyd o fewn fy mhortffolio.

Mae'r gwaith o recriwtio Dirprwy Gyfarwyddwr newydd a fydd yn arwain Cymru Greadigol yn mynd rhagddo a bydd y swydd yn cael ei hysbysebu yn nes ymlaen y mis hwn. Mae ymarfer datblygu sefydliad hefyd wedi cychwyn er mwyn pennu strwythur newydd ar gyfer y sefydliad. Unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau byddaf yn gofyn i'm swyddogion gychwyn y broses angenrheidiol o benodi Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd.

Mae trefniadau cyllido ar gyfer Cymru Greadigol wrthi'n cael eu datblygu cyn y lansiad. Bydd union lefel y gyllideb yn amodol ar broses arferol Llywodraeth Cymru ar gyfer pennu cyllidebau.

O safbwynt yr argymhelliad ynghylch clyweliadau lleol, bydd ymrwymiad yn cael ei gynnwys yng nghanllawiau cyllid ac unrhyw lythyrau cynnig dilynol gan Cymru Greadigol.

2. **Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol ar gyfer Cymru**

Yn ogystal â'r gwaith a amlinellir yn fy Natganiad Ysgrifenedig mae grŵp llywio bach yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru wedi'i sefydlu. Mae'r grŵp hwn yn anelu at ddiffinio pa waith ymchwil sy'n ofynnol fel bod tystiolaeth ar gael a fydd yn sail i benderfyniadau. Cafodd y syniad o oriel wasgaredig ei drafod mewn cyfarfod ym mis Mehefin, a thrafodwyd yr angen i gomisiynu astudiaeth er mwyn ystyried yr hyn sydd ei angen o fewn y rhwydwaith presennol o orielau er mwyn sicrhau bod modd cydymffurfio ag amodau Cynllun Indemniad y Llywodraeth. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i arddangos gwaith uchel eu gwerth o'r casgliadau cenedlaethol. Bydd hyn oll yn cael ei ystyried wrth i feini prawf y cynllun grant cyfalaf gael eu pennu.

Mae disgwyl i'r grŵp llywio gyfarfod eto yn nes ymlaen ym mis Medi a bydd yn cyfarfod unwaith y mis ar ôl hynny er mwyn bwrw ymlaen â cham cyntaf y gwaith. Rwy'n gwbl barod i roi diweddariadau pellach i chi ynghylch hynt y gwaith dros y misoedd nesaf.

3. **Amgueddfa Chwaraeon Cenedlaethol ar gyfer Cymru**

Gwnaeth adroddiad 'Dathlu ein Treftadaeth Chwaraeon' a gyhoeddwyd yn 2018 bennu nad oedd yn ymarferol creu Amgueddfa Chwaraeon Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, bydd Amgueddfa Cymru yn parhau i gasglu, cyflwyno a hyrwyddo treftadaeth chwaraeon fel rhan integredig o fywyd diwylliannol a hanes cenedlaethol Cymru. Credaf fod buddsoddi yn Amgueddfa bresennol Wrecsam yn ffordd ymarferol o greu amgueddfa pêl-droed i Gymru.

O'r herwydd mae swyddogion yn parhau i drafod ag Amgueddfa Cymru ac â Chyngor Wrecsam. Mae Pwyllgor Gweithredol Cyngor Wrecsam eisoes wedi cymeradwyo cynigion ar gyfer datblygu'r prosiect. Gallwch weld yr adroddiad ar-lein: http://moderngov.wrexham.gov.uk/documents/s15501/Item%208.pdf

Mae swyddogion Cyngor Wrecsam, ar y cyd â swyddogion Cadw, wrthi'n ystyried pa mor ymarferol fyddai hi i addasu adeilad yr amgueddfa bresennol.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi trafod y mater â Sporting Heritage, a'r nod yw sefydlu'r panel arbenigwyr a gaiff ei argymell gan yr astudiaeth. Mae Sporting Heritage yn gwmni elusennol a dyma rwydwaith arbenigol a chydnabyddedig y DU ar gyfer treftadaeth chwaraeon.